

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – EBRILL 2016**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL TERFYNOL**

Ystyried a chymeradwyo adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (copi'n amgaeedig).

4. **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Cadarnhau a llofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (copi'n amgaeedig) i'w gynnwys gyda Datganiadau Ariannol Cyngor Tref y Rhyl 2015/16.

5. **CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cymeradwyo a llofnodi'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Archwiliwr Allanol (copi'n amgaeedig).

6. **DATGANIADAU ARIANNOL 2015/16**

Derbyn a chymeradwyo Datganiadau Ariannol 2015/16 (Cyfrifon Terfynol) (copi'n amgaeedig).

7. **STRATEGAETH FUDDSODDI 2016/17 - DIWEDDARIAD**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 102 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2016, derbyn cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) ar y camau a gymerwyd ers cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a chymeradwyo strategaeth adneuo i'r dyfodol.

8. **EITEM ER GWYBODAETH: ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2015/16**

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid ar berfformiad buddsoddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 (copi'n amgaeedig).

9. PENODI PWYLLGORAU / IS-BWYLLGORAU AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17

Penderfynu ar aelodaeth Pwyllgorau, Is-bwyllgorau a Gweithgorau'r Cyngor 2016/17 (copi o'r aelodaeth bresennol yn amgaeedig).

10. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR STAFFIO

Mewn perthynas â Chyfarfod Blynyddol y Cyngor, penderfynu ar benodiad Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Staffio.

11. ENWEBIADAU AR GYFER PENODI CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17

Cadarnhau penodiadau i gyrff allanol ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaeedig).

12. LLYWODRAETHWYR YSGOL 2015/16

Cydnabod penodiad Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol i ysgolion cynradd y Rhyl:

Y Cynghorydd B. Blakeley – Ysgol Llewellyn
Y Cynghorydd A. R. James – Ysgol Bryn Hedydd
Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James – Ysgol Christ Church
Y Cynghorydd Miss R. Siddall – Ysgol Emmanuel
Y Cynghorydd Ms J. Hughes – Ysgol Dewi Sant
Y Cynghorydd Miss C. L. Williams – Ysgol Mair

13. EITEMAU'R AELODAU

- (i) Y Cynghorydd S. H. Ratcliffe – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i wneud cyflwyniadau mewn perthynas â chyflymder traffig ar Gylchfan Sainsburys (A525).
- (ii) Y Cynghorydd S. H. Ratcliffe – Dwyn i sylw'r Cyngor gyflwyniadau a dderbyniwyd gan yr Aelod mewn perthynas â chyflwr platiau enwau strydoedd yn ward Plastirion.
- (iii) Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE – Gofyn am gefnogaeth i brynu Teis a Sgarffiau'r Cyngor Tref.

14. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

15. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

16. SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 124 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Chwefror 2016, ystyried a phenderfynu ar yr adroddiad cyfrinachol ac argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (copi'n amgaeedig).

17. CAIS I WEITHIO AR Y CYD – CYNGOR AR BOPETH (CAB)

Ystyried cynnig i'r Cyngor gyd-ariannu swydd benodol i ddelio â thlodi tanwydd yn ardal y Rhyl (copi'n amgaeedig).

18. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016 i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

19. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.